**WHC/2022/12**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 16 Mehefin 2022

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl: Cynllun Rhoi a Thrawsblannu Cymru: 2022-2026**

**Dyddiad Dod i Ben / Adolygu:** 31 Rhagfyr 2026

**I'w weithredu gan:** Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru

**Angen gweithredu erbyn:** Parhaus

**Anfonydd:** Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:**

Caroline Lewis, Uwch-reolwr Polisi Cyflyrau Iechyd Difrifol, Nyrsio ac Ansawdd, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays CF10 3NQ. Rhif Ffôn: 03000 258953. E-bost: Caroline.Lewis@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** (Dim)

**Cynllun Rhoi a Thrawsblannu Cymru: 2022-2026**

‘Sicrhau bod poblogaeth gyfan Cymru yn gallu rhoi meinwe neu organau a chael trawsblaniad pryd bynnag y bo hyn yn glinigol bosibl’

## Trosolwg

Pwrpas y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw tynnu sylw at gyhoeddi Cynllun Rhoi a Thrawsblannu Cymru: 2022-2026

## Gweithredu

Disgwylir i Fyrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau’r GIG, pan fo’n briodol, weithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru, Gwaed a Thrawsblaniadau’r GIG, Grŵp Cynghorol Cymru ar Drawsblannu, y trydydd sector a sefydliadau perthnasol eraill tuag at weithredu’r blaenoriaethau a’r camau sydd yng Nghynllun Rhoi a Thrawsblannu Cymru.

Dylai byrddau iechyd ystyried y blaenoriaethau ar gyfer rhoi a thrawsblannu wrth gynllunio eu gwasanaethau a datblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

### Cynllun Rhoi a Thrawsblannu Cymru: 2022-2026

Bydd Cynllun Rhoi a Thrawsblannu Cymru: 2022-2026 ar gael ar wefan: https://www.odt.nhs.uk/odt-structures-and-standards/key-strategies/donation-and-transplantation-plan-for-wales/

Mae Cynllun Rhoi a Thrawsblannu Cymru yn anelu at adeiladu ar y gwelliannau yn y maes rhoi a thrawsblannu a ddechreuodd yn dilyn adroddiad Tasglu Rhoi Organau’r DU yn 2008 ac a barhaodd drwy’r argymhellion a nodwyd yn Trawsblannu Organau: Ymlaen at 2020 a’r cynllun gweithredu cysylltiedig ar gyfer Cymru. Mae’n cynnwys rhoi meinwe ac organau i oedolion a phlant o roddwyr byw ac ymadawedig.

Tra bu cynnydd sylweddol mewn rhoi organau o roddwyr byw ac ymadawedig dros y degawd diwethaf, mae cynnydd mewn rhai meysydd wedi bod yn arafach nag y byddem wedi’i obeithio. Mae’r cynllun wedi’i ddatblygu gydag aelodau o Grŵp Cynghorol Cymru ar Drawsblannu ynghyd â mewnbwn oddi wrth randdeiliaid ychwanegol.

Mae’r cynllun hwn yn cyd-fynd â chynllun Rhoi a Thrawsblannu Organau y DU 2030: Cwrdd â’r Angen[1] ac yn cefnogi ei amcanion. O ystyried faint all newid dros y degawd hwnnw yn y maes hwn, mae’r cynllun yn canolbwyntio ar argymhellion y mae’n rhag-weld y gellir eu cyflawni neu lle gallwn wneud cynnydd sylweddol yn y pedair blynedd nesaf. Mae’r cynllun yn ceisio osgoi dyblygu camau gweithredu sydd eisoes wedi’u

[1] https://www.odt.nhs.uk/odt-structures-and-standards/key-strategies/meeting-the-need-2030/

cynnwys yn strategaeth y DU, yn enwedig pan fo'n well cymryd camau gweithredu ar sail y DU gyfan, ac felly dylid ystyried y ddwy ddogfen gyda'i gilydd.

Mae'r cynllun yn cydnabod y cyd-destun y cafodd ei ddatblygu ynddo yn ystod pandemig COVID-19 a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar wasanaethau'r GIG, y pwysau parhaus o fewn y GIG a'r newidiadau angenrheidiol sydd wedi digwydd. Mae angen parhaus i ddarparu gwasanaethau'n wahanol mewn ymateb i COVID-19 a hefyd i fynd i'r afael â'r niwed a achoswyd gan COVID-19 megis y gostyngiad yn nifer y rhoddwyr organau a'r cynnydd yn y rhestr aros am drawsblaniad.
Mae'r cynllun yn nodi nifer o gamau gweithredu penodol i'w cymryd yn seiliedig ar y chwe maes blaenoriaeth, a restrir isod:

- Blaenoriaeth 1 – Cynyddu nifer y rhoddwyr ymadawedig sy'n rhoi organau
- Blaenoriaeth 2 – Cynyddu'r nifer sy'n rhoi meinwe neu lygaid
- Blaenoriaeth 3 – Cynyddu nifer y rhoddwyr byw sy'n rhoi a thrawsblannu
- Blaenoriaeth 4 – Cynyddu mynediad at drawsblannu
- Blaenoriaeth 5 – Gwella canlyniadau trawsblannu
- Blaenoriaeth 6 – Sicrhau gweithlu sy'n gynaliadwy, yn amrywiol ac wedi'i gefnogi

Bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru, pan fo angen, yn flynyddol.